Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

# Cynllun 3 Blynedd 2021-2024

## Ein Diben

# Newid bywydau drwy ddysg.

## Gwerthoedd

### Ysbrydoledig

Rydym yn uchelgeisiol, yn rhagweithiol ac yn arwain drwy esiampl.

### Cynhwysol

Rydym ni'n un tîm unigryw – yn gweithio gyda'n gilydd er budd pawb.

### Dylanwadol

Rydym yn hybu adfywiad cymdeithasol ac economaidd

## Blaenoriaethau

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i'r blaenoriaethau strategol canlynol er mwyn arwain ein cynnydd tuag at ein gweledigaeth:

### Safon

**Un tîm dynamig a medrus**
Byddwn yn datblygu ac yn buddsoddi yn ein pobl ac yn sicrhau ein bod yn hapus yn ein gwaith.

**Profiadau dysgu rhagorol**
Byddwn yn darparu profiadau dysgu a chyfoethogi rhagorol– byddwn yn atgyfnerthu sgiliau, yn hyrwyddo cyflawniad a llwyddiant, ac yn galluogi cynnydd myfyrwyr.

**Pobl fedrus a chyflogadwy**
Byddwn yn datblygu pobl fedrus a chyflogadwy, a'r cwbl yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas drwy eu bywydau.

### Effeithiolrwydd

**Gwydn a dibynadwy**
Byddwn yn parhau i fod yn ariannol gadarn, yn ddyfeisgar a chanolbwyntio ar ddatrysiadau - gan gyflawni gwerth am arian ac adnoddau i wneud buddsoddiadau newydd.

**Agwedd gyfrifol**
Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i uchafu ein heffaith gyfunol a chefnogi dyfodol cynaliadwy.

**Lleoedd ysbrydoledig**
Byddwn yn creu llefydd o'r radd uchaf i ddysgu, sy'n iach ac yn ddiogel, sy'n hyrwyddo technoleg, yn cefnogi dysg bob amser ac yn ysbrydoli cymunedau.

### Twf

**Gweithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr**
Byddwn yn ymgymryd â rôl ganolog o ran ymgysylltu cyflogwyr, datblygu gweithluoedd a darparu doniau medrus ar gyfer y dyfodol er mwyn cefnogi adferiad a thwf economaidd.

**Croesawu arloesi a chyfle**
Byddwn yn ehangu ein busnes, yn cynhyrchu ffrydiau incwm newydd ac yn cydweithio'n lleol ac yn rhyngwladol i ymateb i gyfleoedd sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd.

**Gwneud gwahaniaeth**
Byddwn yn cynyddu ymgysylltiad mewn dysgu, drwy gael gwared ar rwystrau, ehangu darpariaeth a chyflawni newid sy'n cael effaith go iawn ar gymdeithas a'n rhanbarth.

### Llesiant

**Cymuned iach**
Byddwn yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol a llesiant ein staff, ein dysgwyr a'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu - gan ysbrydoli a galluogi pawb i wneud penderfyniadau dysgedig er mwyn gwarchod eu hunain a'n byd.

**Arweinwyr mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**
Byddwn yn gwrando ar anghenion ein cymuned ac yn ymateb iddynt, gan sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gyflawni a gwireddu eu potensial.

**Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru**
Byddwn yn dathlu ein Cymreictod, ein hiaith a'n diwylliant, gan fanteisio ar gyfleoedd i atgyfnerthu ein bywydau a'n gwlad.


02920 250 250 info@cavc.ac.uk
www.cavc.ac.uk


Cymraeg
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg.
Byddwn yn ymateb yn y Gymraeg, ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.